

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd) New Skin Tattoo Laser Removal

Dyddiad arolygu: 29 Medi 2016

Dyddiad cyhoeddi: 30 Rhagfyr 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau gwahanol neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	3
2.	Methodoleg	5
3.	Cyd-destun.....	6
4.	Crynodeb	7
5.	Canfyddiadau	8
	Ansawdd profiad y claf	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	10
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	12
6.	Camau Nesaf	14
	Atodiad A.....	15

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.

Mae AGIC yn canolbwyntio'n bennaf ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y ffordd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Mae arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ymdrechu i sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a sefydlu sut mae'r gwasanaethau'n bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.¹

Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion am ein canfyddiadau ni ar ôl arolygiad o wasanaeth gofal iechyd annibynnol. Mae AGIC yn gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ysbytai annibynnol, clinigau annibynnol ac asiantaethau meddygol annibynnol.

¹ Cafodd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2011. Diben y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw sicrhau bod cleifion a phobl sy'n dewis gofal iechyd preifat yn cael sicrwydd bod y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn ddiogel ac o ansawdd da. <http://www.hiw.org.uk/rheoleiddio-gofal-iechyd>

Rydym yn cyhoeddi ein canfyddiadau o fewn ein hadroddiadau arolygu o dan dair thema:

- Ansawdd Profiad y Claf
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.

2. Methodoleg

Yn ystod yr arolygiad, byddwn yn casglu gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gydag aelodau staff (lle bo'n briodol) a rheolwr cofrestredig y gwasanaeth
- Sgyrsiau gyda chleifion a pherthnasau (lle bo'n briodol)
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau
- Archwilio'r offer a'r amgylchedd
- Gwybodaeth yn natganiad o ddiben y gwasanaeth, ei ganllaw i gleifion a'i wefan (lle bo'n briodol)
- Holiaduron cleifion AGIC a lenwyd cyn yr arolygiad.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu golwg gyffredinol o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn cael adborth priodol.

Bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi yn sgil arolygiad mewn hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.² Bydd manylion o'r fath, yn ogystal ag unrhyw welliannau eraill angenrheidiol, yn cael eu cynnwys yn Atodiad A i'r adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau'n rhoi ciplun ar ddiwrnod yr arolygiad o'r ffordd y mae'r gwasanaethau'n bodloni safonau a rheoliadau diogelwch ac ansawdd hanfodol.

² Fel rhan o broses ddiffyg cydymffurfio a gorfodi AGIC ar gyfer gofal iechyd annibynnol, bydd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio'n cael ei gyflwyno mewn achos pan fo diffyg cydymffurfio rheoleiddiol yn fwy difrifol ac yn ymwneud â chanlyniadau gwael a methiannau systematig. Golyga hyn achosion o ganlyniadau gwael i bobl (oedolion neu blant) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac achosion o fethiannau'n arwain at danseilio hawliau pobl. Mae copi o broses ddiffyg cydymffurfio AGIC ar gael ar gais.

3. Cyd-destun

Mae New Skin Tattoo Laser Removal wedi ei gofrestru fel ysbyty annibynnol am fod y cwmni'n darparu triniaethau laser Dosbarth 4 yn 51a Stryd Caer, Wrecsam, LL13 8BA. Cofrestrwyd y gwasanaeth am y tro cyntaf yn 2014.

Ar adeg yr arolygiad, roedd tîm y staff yn cynnwys y rheolwr cofrestredig a dau weithredwr laser. Mae'r gwasanaeth wedi ei gofrestru i ddarparu'r triniaethau canlynol i gleifion dros 18 oed:

Laser Q-Switched Nd: YAG Dosbarth 4 ar gyfer

- Tynnu tatŵs
- Triniaeth pilio laser carbon.

4. Crynodeb

Beth mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cleifion yn cael digon o wybodaeth er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth
- Mae'r gwasanaeth yn ymroddedig i ddaparu profiadau cadarnhaol i gleifion
- Roedd gan y gwasanaeth system er mwyn gofyn barn y cleifion.

Beth mae angen ei wneud i wella'r gwasanaeth:

- Diweddariadau i ganllaw'r cleifion
- Mae angen adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau, yn benodol er mwyn cofnodi dyddiadau adolygiadau a fersiynau yn ogystal â llofnodion staff er mwyn sicrhau eu bod wedi deall unrhyw newidiadau
- Rhaid i bob aelod o staff sy'n defnyddio'r laser ddilyn hyfforddiant Diogelu Oedolion Agored i Niwed er mwyn sicrhau bod y risg o driniaeth amhriodol neu anniogel cyn ised â phosibl.

Darperir mwy o fanylion am y gwelliannau hyn yn Atodiad A.

Yng ngoleuni canfyddiadau'r arolgiad hwn, mae angen rhai gwelliannau i drefniadau sicrwydd ansawdd a llywodraethu'r gwasanaeth hwn er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau diogelwch ac effeithlonrwydd y gwasanaeth a ddarperir.

Er nad yw hyn wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, mae disgwyliad y bydd y rheolwr cofrestredig yn cymryd camau ystyrlon i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan y gallai methu â gwneud hynny arwain at gamau gan AGIC ar sail diffyg cydymffurfiaid â'r rheoliadau.

5. Canfyddiadau

Ansawdd profiad y claf

Gwybodaeth y claf a chaniatâd (Safon 9)

Canfuwyd tystiolaeth i ddangos bod cleifion yn cael digon o wybodaeth er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth.

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael ymgynghoriad llafar cyn eu triniaeth, a oedd yn cynnwys trafodaeth ynglŷn â'r risgiau a'r manteision. Gofynnwyd i gleifion ddarparu caniatâd ysgrifenedig i bob triniaeth a gwelsom enghreifftiau o wybodaeth a chanllawiau ôl-ofal yn cael eu rhoi i gleifion.

Gwelsom fod gofyn i gleifion lenwi ffurflenni hanes meddygol ac roedd unrhyw ddiweddariadau neu newidiadau'n cael eu gwirio ym mhob apwyntiad a'u llofnodi gan y cleifion. Nodwyd bod hyn yn arfer da.

Roedd cofrestr driniaeth hefyd yn cael ei chynnal ac roedd hon yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.

Cyfathrebu'n effeithiol (Safon 18)

Roedd dogfen ganllaw i gleifion ar gael ac yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol. Fodd bynnag, nodwyd bod angen y diweddariadau canlynol yn unol â'r rheoliadau:

- Cynnwys manylion am ystod prisiau'r triniaethau
- O dan y pennawd cwynion, dylid tynnu'r datganiad y gellir anfon cwynion i AGIC a'i ddiweddarau
- Crynodeb o adborth y cleifion diweddaraf.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r canllaw i gleifion gael ei ddiweddarau yn unol â'r rheoliadau.

Rhaid i gopi o ganllaw'r cleifion gael ei anfon i AGIC.

Roedd datganiad o ddiben ar gael a gwelsom fod angen y diweddariadau canlynol:

- Y cymwysterau perthnasol i holl aelodau staff y gwasanaeth
- Strwythur sefydliadol
- Y broses gwyno

- Dyddiad creu ac adolygu.

Ers ein hymweliad, rydym wedi derbyn datganiad o ddiben wedi ei ddiweddarau sydd bellach yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

Ymgysylltu â dinasyddion a chael adborth dinasyddion (Safon 5)

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r clinig rannu holiaduron AGIC er mwyn cael barn cleifion am y gwasanaethau a ddarperir. Llenwyd un ar bymtheg o holiaduron cyn yr arolygiad. Roedd yr holiaduron yn unfrydol gadarnhaol ac roedd y cleifion i gyd yn cytuno'n gryf gyda'r datganiadau bod y clinig yn lân ac yn daclus a bod yr aelodau staff yn gwrtais, yn garedig, yn gwrando, ac yn rhoi digon o wybodaeth ynglŷn â'u triniaeth. Dywedodd y cleifion i gyd eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn ac roedd y cleifion i gyd yn dweud bod y driniaeth a dderbyniwyd gan y gwasanaeth yn ardderchog. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Balch iawn gyda chanlyniad fy nhriniaeth laser. Proffesiynol a chyfeillgar iawn. Canlyniadau gwych a dim problemau o gwbl”

“Pobl ardderchog a phroffesiynol i ymdrin â hwy – byddwn yn eu hargymell i unrhyw un”

“Gwasanaeth gwych, cyfeillgar a chroesawgar iawn. Byddwn yn bendant yn eu hargymell – 5”*

“Roeddwn i'n teimlo'n gyfforddus iawn ac yn gartrefol gyda'r gofal a roddwyd gan y staff yn New Skin”

Gwelsom fod gan y clinig system ar waith er mwyn gofyn am adborth cleifion, fel ffordd o fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Gallai'r cleifion gyflwyno adborth trwy holiadur cleifion neu ar gyfryngau cymdeithasol. Roedd modd cyflwyno sylwadau ac adborth yn ddienw hefyd. Dywedodd y clinig wrthym eu bod yn dadansoddi adborth cleifion bob blwyddyn ac yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i wella'r gwasanaethau.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol (Safon 7) a dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol (Safon 16)

Gwelsom dystiolaeth fod pob gweithredwr awdurdodedig wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar ddefnyddio'r peiriant laser a hyfforddiant Craidd Gwybodaeth.³

Gwelsom fod contract ar waith gyda chynghorydd diogelu rhag laserau a bod rheolau lleol gyda manylion am weithredu'r peiriant yn ddiogel, a oedd wedi eu llofnodi gan bawb oedd yn gweithredu'r laser er mwyn dangos eu bod yn ymwybodol o'r rheolau hyn ac yn cytuno i'w dilyn. Fodd bynnag, nid oedd y rheolau lleol wedi eu diweddarau'n flynyddol, sydd yn un o'r amodau cofrestru. Rhoddwyd gwybod i'r rheolwr bod yn rhaid diweddarau'r rheolau lleol a bod angen i'r cynghorydd diogelu rhag laserau ymweld â'r safle. Nodwyd hefyd nad oedd manylion AGIC wedi eu cynnwys o fewn y rheolau lleol ar gyfer rhoi gwybod am effeithiau niweidiol o dan Reoliad 30/31.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid adolygu'r rheolau lleol bob blwyddyn a rhaid i'r cynghorydd diogelu rhag laserau gynnal ymweliad â'r safle.

Rhaid anfon copi o'r rheolau lleol diweddaraf i AGIC.

Gwelsom fod sbectol i amddiffyn y llygaid ar gael i'r cleifion a gweithredwyr y laserau. Roedd yn ymddangos bod y sbectolau mewn cyflwr addas.

Dywedwyd wrthym fod y peiriant yn cael ei gynnal gan yr aelodau staff yn fewnol a'i fod yn cael ei raddnodi bob mis.

Roedd arwydd ar du allan yr ystafell driniaeth i ddangos pan oedd y peiriant yn cael ei ddefnyddio ac mae modd cloi'r drws, er mwyn atal mynediad heb awdurdod.

Caiff yr allwedd i weithredu'r peiriant laser ei chloi'n ddiogel mewn saff allweddau pan nad yw'n cael ei defnyddio.

³ Bwriedir hyfforddiant Craidd Gybodaeth ar gyfer gweithredwyr sy'n defnyddio systemau laserau a Golau Pwls Dwys ar gyfer triniaethau croen amrywiol. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth ac arweiniad ar ddefnyddio systemau Golau Pwls Dwys a laserau'n ddiogel.

Roedd protocolau meddygol ar waith a oedd wedi eu harwyddo gan ymarferwr meddygol arbenigol a chawsant eu hadolygu ym mis Ionawr 2016.

Diogelu plant ac oedolion agored i niwed (Safon 11)

Mae'r gwasanaeth wedi ei gofrestru er mwyn trin cleifion dros 18 oed yn unig. Yn ystod ein hymweliad, gwnaethom bwysleisio pwysigrwydd cadw at y rwymedigaeth gyfreithiol hon o dan yr amodau cofrestru.

Disgrifiodd y rheolwr inni sut y byddent yn ymdrin ag unrhyw faterion diogelu ac roedd hyn yn unol â'u polisi a'u gweithdrefnau diogelu. Fodd bynnag, nid oedd gweithredwyr y laserau wedi dilyn unrhyw hyfforddiant diogelu ffurfiol a rhoddwyd gwybod i'r rheolwr bod angen i bob gweithredwr laser ddilyn yr hyfforddiant hwn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i bob un o weithredwyr y laserau ymgymryd â hyfforddiant diogelu.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio (Safon 13)

Gwelsom fod y gwasanaeth hwn yn amlwg yn lân a thaclus. Trafodwyd trefniadau rheoli heintiau gyda'r rheolwr ac ystyriwyd eu bod yn briodol er mwyn diogelu cleifion rhag croes-heintio. Roedd gweithdrefn rheoli heintiau ar waith ac roedd amserlen lanhau yn amlwg ar waith yn yr ystafell driniaeth. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw bolisi penodol ar waith ac mae'n ofynnol i'r gwasanaeth weithredu polisi.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i bolisi rheoli heintiau gael ei sefydlu.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch (Safon 22)

Gwelsom dystiolaeth bod profion dyfeisiau cludadwy wedi eu cynnal, er mwyn sicrhau bod offer trydanol bach yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom dystiolaeth hefyd bod gwifrau'r adeilad wedi eu gwirio yn y pum mlynedd ddiwethaf.

Edrychwyd ar rai o'r trefniadau ar gyfer diogelwch tân. Roedd labeli gwasanaethu ar y diffoddwyr tân yn dangos eu bod yn cael eu gwasanaethu bob blwyddyn. Roedd arwyddion yn cyfeirio at yr allanfeydd tân ac roedd asesiadau risg tân ar waith.

Roedd bocs cymorth cyntaf ar gael ac roedd un aelod o staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd (Safon 1)

Edrychwyd ar sampl o bolisiau a gweithdrefnau a oedd ar waith gan y gwasanaeth. Nid oedd dyddiadau'r fersiynau na dyddiadau adolygu ar y rhai a welwyd. Nid oedd cofnod i ddangos bod yr aelodau staff wedi darllen y polisiau a'r gweithdrefnau ac argymhellwyd bod yr aelodau staff yn llofnodi polisiau a gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn eu deall. Roeddem yn argymhell i'r rheolwr y dylid diwedddaru'r holl bolisiau a gweithdrefnau er mwyn cynnwys rheoli/dyddiad fersiynau a dyddiad adolygu.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid adolygu pob polisi a gweithdrefn er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys rheoli/dyddiad fersiynau, dyddiad adolygu, a llofnodion staff ar ôl iddynt gael eu darllen a'u deall.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau (Safon 23)

Gwelsom fod gan y gwasanaeth bolisi cwynion ar waith a'i fod yn darparu manylion cyswllt cywir AGIC yn unol â'r gofynion rheoleiddio. Roedd manylion am y weithdrefn gwynion hefyd wedi eu cynnwys yn y datganiad o ddiben. Ar ddiwrnod ein hymweliad, gwelsom nad oedd y gwasanaeth wedi derbyn unrhyw gwynion ynglŷn â'i wasanaeth a/neu driniaethau. Er gwaethaf y cyflawniad hwn, cynghorwyd y rheolwyr i sefydlu log er mwyn sicrhau bod unrhyw bryderon yn cael eu cofnodi yn y dyfodol.

Rheoli cofnodion (Safon 20)

Gwelsom fod gwybodaeth y cleifion yn cael ei chadw'n ddiogel bob amser yn y gwasanaeth. Mae hyn am fod cofnodion papur yn cael eu cadw mewn cwpwrdd dan glo yn yr ystafell driniaeth, sydd hefyd yn cael ei chloi pan nad yw'n cael ei defnyddio.

Recriwtio i'r gweithlu ac arferion cyflogaeth (Safon 24)

Roedd y rheolwr cofrestredig a dau o weithredwyr y laserau wedi cael gwiriadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fodd bynnag, roedd angen adnewyddu gwiriad un gweithredwr ac roedd hyn yn y broses o ddigwydd.

Roedd y rheolwr cofrestredig a'r gweithredwr laserau wedi cwblhau hyfforddiant mewn nifer o feysydd er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf.

Er nad oedd y gwasanaeth wedi penodi unrhyw aelodau staff newydd er mwyn darparu triniaethau laser, gwelsom fod y gwasanaeth wedi sefydlu rhaglen hyfforddiant yn y cyfnod sefydlu. Gwelsom hefyd fod arfarniadau staff wedi eu cynnal bob tri mis, sy'n arfer da. Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal bob mis. Fodd bynnag, nid yw cyfarfodydd y tîm yn cael eu cofnodi a chynghorwyd y dylai'r rheolwr gadw cofnod o'r cyfarfodydd hyn.

O ystyried canfyddiadau'r arolygiad hwn, mae angen rhai gwelliannau yn nhrefniadau sicrwydd ansawdd a llywodraethu'r gwasanaeth hwn er mwyn sicrhau cydymffurfiaid parhaus gyda'r rheoliadau a'r safonau perthnasol.

Mae rhoi trefniadau sicrwydd ansawdd a llywodraethu cadarn ar waith ac ymateb amserol darparwr cofrestredig i unioni materion sy'n peri pryder yn ddangosyddion pwysig o allu darparwr i redeg eu gwasanaeth gyda gofal, cymhwysedd a sgiliau digonol. Mae disgwyliad, felly, y bydd y rheolwr cofrestredig yn gweithredu'n ystyrllon er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, gan y gallai methu â gwneud hynny arwain at gamau gan AGIC am beidio â chydymffurfio â'r rheoliadau.

6. Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at fod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â gwelliannau a nodir yn yr adroddiad hwn. Mae manylion am hyn i'w gweld yn Atodiad A i'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir sut y byddir yn mynd i'r afael â'r gwelliannau a nodir ar gyfer New Skin Tattoo Laser Removal, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwelliant, ar ôl cytuno arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC ac yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus.

Atodiad A

Cynllun Gwella

Gwasanaeth:

New Skin Tattoo Laser Removal

Dyddiad yr Arolygiad:

29 Medi 2016

Rhif Tudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf					
8	Rhaid diweddaru'r canllaw i'r cleifion yn unol â'r rheoliadau. Rhaid i gopi o ganllaw y cleifion gael ei anfon i AGIC.	Rheoliad 7	Y canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben wedi eu diweddaru a'u hanfon i AGIC.	S M Hewitt	Gwnaed
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol					
10	Rhaid diweddaru'r rheolau lleol bob blwyddyn a rhaid i'r cynghorydd diogelu rhag laserau ymweld â'r safle. Rhaid anfon copi o'r rheolau lleol	Amod cofrestru AGIC Rheoliad 15 (1) a (2)	Daeth Simon Wharmby ar 2 Tachwedd 2016. Copi o'r rheolau lleol wedi eu hanfon.	S M Hewitt	Gwnaed

Rhif Tudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	wedi eu diweddarau i AGIC.	Safon 16			
11	Rhaid i bolisi rheoli gael ei roi ar waith.	Rheoliad 9 (n)	Polisi rheoli heintiau wedi ei ysgrifennu a'i anfon i AGIC.	S M Hewitt	Gwnaed
11	Rhaid i bob gweithredwr laser fynychu hyfforddiant diogelu.	Rheoliad 16	Holl staff yn mynychu cwrs diogelu.	S M Hewitt	Gwnaed
Ansawdd y staffio, rheolaeth ac arweinyddiaeth					
12	Rhaid i bob polisi a gweithdrefn gael eu hadolygu er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cynnwys rheoli/dyddiad fersiynau, dyddiad adolygu, a llofnodion staff ar ôl iddynt gael eu darllen a'u deall.	Rheoliad 9	Mae pob polisi wedi ei adolygu ac mae fersiwn, dyddiad, dyddiad adolygu a llofnodion staff wedi eu nodi.	S M Hewitt	Gwnaed

Cynrychiolydd y Gwasanaeth: New Skin

Enw (argraffwch): Sharon Marie Hewitt

Teitl: Rheolwr

Dyddiad: 30/10/2016